
Cranfield TRUST

# Ein Heriau a Rennir:

## Cysylltu Arweinwyr Elusennau Cymru â’r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt

Mai 2022



# Rhagarweiniad



Mae Ymddiriedolaeth Cranfield yn darparu cefnogaeth rheoli ddi-dâl i elusennau lles rheng flaen, gan weithio gyda chofrestr o wirfoddolwyr o'r sector masnachol. Diolch i'n 1400 o wirfoddolwyr, bob blwyddyn rydym yn darparu gwasanaethau ymgynghori a mentora pro bono i dros 500 o elusennau ledled y DU. Rydym hefyd yn darparu cyngor dros y ffôn, grwpiau cefnogi cymheiriaid, gweminarau am bynciau rheoli, ac adnoddau gwybodaeth ar-lein.

Yn ystod y pandemig, rydym wedi gweld elusennau yng Nghymru yn gweithio'n galed i gynnal gwasanaethau hanfodol, ac yn addasu'n gyflym i newidiadau a gafodd eu gorfodi arnynt yn ystod y cyfnod clo. Roeddem wedi gobeithio y byddem yn dod allan o'r pandemig erbyn hyn, ond mae niferoedd COVID yn dal i fod yn uchel. Rydym yn wynebu cynnydd llym mewn costau byw a phryderon parhaus am iechyd meddwl a lles, ac rydym yn addasu i fodelau gwaith hybrid. Mae rhyfel yn Wcráin wedi cyflwyno argyfwng dyngarol difrifol i bobl sy'n dal i fyw yn y wlad ac i ffoaduriaid, yn ogystal ag ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd rhyngwladol. Rydym yn byw mewn cyfnod ansicr a llawn pryder, sy'n cynyddu'r pwysau a oedd eisoes yn sylweddol ar arweinwyr a rheolwyr y sector gwirfoddol, wrth iddynt ymateb i anghenion y bobl y maent yn eu gwasanaethu a rheoli eu mudiadau eu hunain.

Yn hanesyddol, mae swm sylweddol o'r cyllid i elusennau Cymru wedi cael ei roi gan Lywodraeth Cymru, ond mae'r gwariant wedi lleihau'n gyson dros y deng mlynedd ddiwethaf. Amcangyfrifir bod elusennau yng Nghymru wedi colli 24% o gyfanswm eu hincwm yn ystod 2021, sy'n cynrychioli colled o £620m.[1] Mae elusennau llai'n profi effaith ddwys y datblygiadau hyn wrth i gystadleuaeth am gyllid grant ddwysáu ymhellach ac wrth i'r amgylchedd economaidd ansicr roi pwysau ar ffynonellau incwm eraill, megis rhoddion gan unigolion a chorfforaethau.

Rydym yn credu bod elusennau'n wynebu cyfnod yr un mor anodd dros y ddwy flynedd nesaf â'r cyfnod ers mis Mawrth 2020: byddant yn wynebu cynnydd yn y galw gan ddefnyddwyr gwasanaeth, mewn amgylchedd cyllid anodd iawn.

1 - WCVA. Papur briffio - Y Pwyllgor Cydraddoldebau, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol. Chwef 2021. Cyswllt. Yr Heriau Rydyn Ni'n eu Rhannu: Cysylltu Arweinwyr Elusennau Cymru â'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Ebrill 2022.

Fe wnaethom gynnal arolwg ar-lein, i Gymru gyfan. Ein nodau oedd: dyfnhau ein dealltwriaeth o'r sgiliau rheoli sydd eu hangen ar arweinwyr elusennau a'r heriau rheoli sy'n eu hwynebu; y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i barhau â'u gweithgareddau, eu haddasu a sicrhau y byddant yn addas yn y dyfodol; a chasglu safbwyntiau ynghylch sut gall Ymddiriedolaeth Cranfield deilwra ein gwasanaethau wrth i ni edrych ymlaen at ffyrdd newydd o weithio ar ôl y pandemig.

Mae'r canfyddiadau'n dod o 314 o fudiadau sector gwirfoddol ledled Cymru: mae dadansoddiad o'u maint, eu lleoliadau, eu meysydd gwaith a rôl yr unigolyn a ymatebodd ar gael yn yr Atodiad (t13). Roedd yr arolwg yn archwilio'r heriau sy'n wynebu mudiadau ac anghenion eu rheolwyr am gefnogaeth yn y dyfodol. Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn hefyd â 30 o gleientiaid elusennol presennol a rannodd eu syniadau am y cwestiynau a ofynnwyd. Rydym yn ddiolchgar i'r deuddeg o gyrff cefnogi ac arianwyr y sector gwirfoddol a gynorthwyodd eu cysylltiadau i gymryd rhan yn ein harolwg yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2021.

Yn yr arolwg, dywedodd arweinwyr elusennau wrthym eu bod o dan bwysau aruthrol, eu bod yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r amser i feddwl yn strategol a gweithredu ar yr un pryd, a bod angen cefnogaeth allanol arnynt nawr. Mae'n amlwg nad yw llawer o atebwyr ein harolwg yn gwybod am y gefnogaeth pro bono sydd ar gael iddynt. Byddwn yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth a all helpu arweinwyr elusennau, gan Ymddiriedolaeth Cranfield a hefyd gan ddarparwyr pro bono eraill.

Rydym wedi gwrando ar elusennau yng Nghymru ac wedi adnewyddu ein dealltwriaeth o'u gofynion o ran cefnogaeth rheoli. Rydym yn ymroddedig i gefnogi elusennau, eu harweinwyr, eu rheolwyr a'u hymddiriedolwyr, drwy ein gwasanaethau, gan fuddsoddi yn ein darpariaeth a'n cyfathrebu i sicrhau bod gan fwy o elusennau Cymru y galluoedd rheoli a'r hyder sydd eu hangen arnynt i ymateb i heriau'r dydd.

**Amanda Tincknell CBE**
**Prif Weithredwr**

# Prif Ganfyddiadau

**73%** o atebwyr yn dweud wrthym bod angen cefnogaeth rheoli ar unwaith arnynt.

Wrth ateb y cwestiwn a fyddai'n ddefnyddiol cael cefnogaeth rheoli allanol nawr, dywedodd 73% o'r atebwyr y byddai.

O ran defnyddio cefnogaeth allanol i ddatblygu sgiliau/ateb heriau allweddol, dywedodd atebwyr o elusennau wrthym:

- Fod 38% wedi defnyddio cefnogaeth allanol yn y 12 mis diwethaf
- O'r rhain: roedd 62% wedi defnyddio cefnogaeth ddi-dâl; roedd 26% wedi talu am gefnogaeth; a 12% wedi defnyddio cymysgedd o gefnogaeth ddi-dâl ac am dâl
- nid oedd 86% o'r holl atebwyr wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Cranfield o'r blaen ac roedd 14% wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Cranfield

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi gweithio gyda ni a fyddent yn argymell Ymddiriedolaeth Cranfield, a dywedodd 100% o'r atebwyr y byddent yn ein hargymell.

## Sgiliau hollbwysig

Wrth feddwl am y sgiliau y bu eu hangen arnynt a'r heriau sy'n eu hwynebu, dywedodd atebwyr yr arolwg wrthym mai dyma'r tri sgìl fu bwysicaf i arweinwyr elusennau yn y 12 mis diwethaf:

**83%** Meddwl/cynllunio strategol

**76%** Rheoli a rhagfynegi ariannol

**69%** Rheoli a chefnogi pobl

Yn ein holl waith yn Ymddiriedolaeth Cranfield, mae cynllunio strategol a chynllunio busnes wedi parhau i fod o leiaf hanner ein gweithgareddau ymgynghori dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er bod yr hinsawdd wedi ei gwneud yn eithriadol o anodd cynllunio ymlaen llaw, mae'n hanfodol bod mudiadau'n cadarnhau eu strategaeth ac yn archwilio gwahanol senarios, i ganolbwyntio ar eu diben a sicrhau bod ganddynt ddarlun ariannol clir o'u dyfodol.

Rydym yn gwybod bod lles staff wedi bod, ac yn dal i fod, yn bryder go iawn – a hefyd yn broblem reoli – i arweinwyr elusennau. Mae pwysau cefnogi cydweithwyr drwy'r newidiadau mawr mae Covid wedi eu cyflwyno, yn ogystal â rheoli adnoddau sy'n newid yn gyflym oherwydd absenoldebau staff a heriau teuluol, yn parhau i fod yn anodd.



# Blaenoriaethau a Heriau

## Sgiliau hollbwysig

Pum prif flaenoriaeth mudiadau ar gyfer y 18 mis nesaf yw:

- **78%** Rheoli ariannol, cynllunio ariannol a chynaliadwyedd
- **73%** Codi arian
- **45%** Marchnata a chyfathrebu
- **43%** Rheoli pobl
- **40%** Recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr

Mae'r dyfodol yn edrych yn bryderus i lawer o elusennau. Wrth ddod allan o'r pandemig, mae cronfeydd llawer o elusennau'n brin ac maent nawr yn gweld bod codi arian a chynhyrchu incwm yn heriol iawn. Mae digwyddiadau'r byd – y pandemig, a nawr y sefyllfa yn Wcráin – yn hawlio sylw'r cyhoedd, yn ddigon teg, sy'n gallu gwneud codi arian cyhoeddus a chorfforaethol yn anodd i elusennau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r rhain, a cheir cystadleuaeth ddwys am fathau eraill o gyllid.

Mae marchnata a chyfathrebu'n mynd yn bwysicach o ran cefnogi gweithgareddau codi arian, ac mae cefnogi staff a gwirfoddolwyr i gynnal adnoddau'n dal i fod yn anodd gan fod Covid yn dal i effeithio ar gynifer o bobl.

"Y prif rwystr yw bod fy rôl yn cynnwys pob agwedd ar gynnal y ganolfan, felly mae'n anodd i mi ddod o hyd i'r amser i allu gweithio ar lawer o bethau all ein helpu ni i wella ein gwasanaethau a chynnig ystod fwy cynhwysfawr o wasanaethau i'r gymuned. Yn y bôn, mae angen dau ohono'i, ond fi sy'n gwneud popeth ac rydw i'n aml yn teimlo dan bwysau **- Un o atebwyr yr arolwg**

## Heriau

Rhoddodd atebwyr yr arolwg eu prif heriau i arweinwyr – nawr ac fel y maent yn eu rhagweld dros y 12 mis nesaf:

**85%** Cael digon o amser i weithredu a meddwl am strategaeth

Y brif her o ran arwain y soniodd yr atebwyr amdani oedd cydbwyso pwysau gweithredol eu rolau â gweithgareddau strategol. Mae llawer o arweinwyr wedi cael eu tynnu i mewn i fwy o weithgareddau gweithredol nag arfer, oherwydd bod mwy o weithgareddau'n digwydd neu i gymryd lle cydweithwyr sy'n absennol oherwydd Covid, ac mae cyflymder newid yn ystod y pandemig wedi golygu bod llawer o elusennau wedi bod yn ymatebol, yn hytrach na gallu cynllunio ymlaen llaw. Mae neilltuo amser i ganolbwyntio ar faterion strategol yn hollbwysig – ac ym mhrofiad Ymddiriedolaeth Cranfield, mae hyn yn tueddu i leihau pwysau yn hytrach nag ychwanegu ato.

Yr heriau eraill oedd

- **51%** Cefnogi fy nhîm
- **48%** Hyder i gynllunio mewn cyfnod ansicr
- **30%** Hyder yn nyfodol fy mudiad
- **27%** Gweithio'n effeithiol gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr
- **20%** Teimlo'n unig

(302 ymateb)
*Roedd atebwyr yn gallu dewis pob opsiwn sy'n berthnasol i'w hanghenion

# Rhwystrau rhag datblygiad

Wrth daro golwg fwy cyffredinol ar weithio gyda chefnogaeth allanol, gofynnwyd i arweinwyr elusennau am rwystrau rhag datblygu'r mudiad a datblygu sgiliau rheoli drwy weithio gyda chefnogaeth allanol. Rhwystrau ymarferol oedd y rhain yn bennaf:

**46%** yn dweud bod diffyg cyllid craidd/tymor hir yn rhwystr rhag datblygu yn gyffredinol

Credwn fod hyn yn ymwneud ag ansefydlogrwydd mudiadau h.y. mae'n anodd buddsoddi mewn datblygu'r mudiad os oes diffyg hyder mewn cynaliadwyedd.

**20%** yn dweud bod amser yn rhwystr mawr rhag datblygu'r mudiad a gwella sgiliau.

**20%** yn dweud bod problemau staffio'n rhwystr.

**4%** yn dweud bod eu timau wedi'u gorestyn ac mewn perygl o gael eu gorweithio.

Mae pwysau amser a phwysau staff yn rhwystr sylweddol rhag buddsoddi mewn datblygu mudiad – mae hyn yn cyd-fynd â'r broblem y soniodd atebwyr amdani nad oes ganddynt ddigon o amser i gydbwyso gweithgareddau strategol a gweithredol.

Yn ein profiad ni, mae creu lle i wneud gweithgareddau datblygu – naill ai fel gweithgaredd ymgynghori â ffocws neu drwy fentora – yn gallu lleddfu'r pwysau hwn. Rydym yn teilwra ein holl gefnogaeth ar gyfer anghenion ac amserlen yr elusen ei hun, ac yn gweithio ar eu cyflymder hwy. Mae cleientiaid Ymddiriedolaeth Cranfield yn dweud, er ei bod yn anodd dod o hyd i'r lle hwn i ddechrau, bod buddsoddi'r amser yn talu ar ei ganfed o ran gwneud cynnydd strategol a rhoi sylw i fannau poenus.

**15%** yn sôn am ddiffyg arian i dalu am gefnogaeth ymgynghori.

Mae llawer o gefnogaeth pro bono ar gael. Mae'r pwynt hwn yn tynnu sylw at her sy'n wynebu Ymddiriedolaeth Cranfield a mudiadau cefnogi eraill, sef sicrhau bod elusennau'n gwybod ein bod yma ac yn barod i weithio gyda hwy. Mewn rhai achosion, bydd angen i elusennau weithio gyda darparwyr y maent yn eu talu, neu byddant yn dewis gwneud hynny, ond mewn llawer o sefyllfaoedd, mae cefnogaeth pro bono yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae angen i fudiadau pro bono ddod o hyd i ffyrdd o gyfathrebu am eu cynnig i sicrhau bod elusennau'n gwybod pa gymorth sydd ar gael iddynt.

"Mae llif arian parod yn broblem ac mae angen sicrwydd ynghylch cyllid y dyfodol er mwyn dechrau rhywbeth ag oes silff hir." **- Un o atebwyr yr arolwg**





# Ciplun ar allu

**Ciplun ar allu:** gofynnwyd i elusennau am eu cryfderau a'u hyder ar hyn o bryd:

Roedd elusennau'n hyderus mewn rhai meysydd rheoli ac yn llai hyderus mewn eraill. Pan ofynnwyd am eu cryfderau, roedd ymdeimlad o bwrpas yn thema gref:

- **79%** Rydym yn glir ynghylch diben ein mudiad
- **52%** Mae gennym y sgiliau mewnol i gyflawni ein diben
- **43%** Rydym yn gwerthuso ein canlyniadau'n glir ac yn dangos effaith

Roedd rheoli ariannol yn gryf mewn rhai meysydd, ond yn llai cryf o ran rhagfynegi. Dim ond traean mudiadau'r atebwyr oedd â chronfeydd cryf:

- **62%** Rydym yn paratoi cyfrifon rheoli rheolaidd
- **61%** Mae ein cyfrifon yn cael eu harchwilio'n allanol
- **55%** Rydym yn paratoi cyllideb flynyddol fanwl gywir ac yn mesur perfformiad
- **35%** Rydym yn rhagfynegi llif arian parod ac yn cynllunio senarios
- **35%** Mae gennym ddigon o gronfeydd i adlewyrchu sefydlogrwydd y mudiad

Nid oedd meysydd rheoli pobl cystal, a dangoswyd ymdeimlad o adnoddau annigonol:

- **53%** Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau staff yn gadarn
- **36%** Rydym yn adolygu ein prosesau'n rheolaidd ac yn unioni unrhyw dangyflawni
- **34%** Mae strwythur ein mudiad yn cefnogi ein hanghenion
- **25%** Mae ein gallu i wirfoddoli'n cyflawni ein diben

Nid oedd llawer o hyder mewn arweinwyr a rheolwyr:

- **49%** Rwy'n hyderus yn fy arweinwyr i reoli newid
- **40%** Mae ein tîm arwain yn fedrus o ran rheoli newid
- **38%** Mae gan ein Bwrdd y sgiliau sy'n ofynnol i fod yn effeithiol

Roedd cynllunio ymlaen llaw'n wannach nag y byddem yn ei obeithio:

- **38%** Mae gennym gynllun busnes cyfredol
- **18%** Mae gennym gynllun cyfathrebu sy'n addas i'w ddiben
- **17%** Mae gennym strategaeth a chynllun cadarn ar gyfer codi arian

# Pa Gefnogaeth sydd ei Hangen?

Gofynnwyd i elusennau pa gefnogaeth y byddai ei hangen arnynt gan wasanaethau di-dâl Ymddiriedolaeth Cranfield i'w helpu dros y misoedd nesaf. Dyma eu

**64%**
yn dweud yr hoffent allu defnyddio adnoddau ar-lein, arweiniad ymarferol ynghylch materion rheoli

**47%**
yn dweud yr hoffent weminarau am bynciau rheoli

**45%**
yn dweud y byddai mentora, i ddarparu cymorth unigol i arweinwyr elusennau, o gymorth

**43%**
yn gofyn am gefnogaeth ymgynghori i reolwyr i ymdrin â materion strategol a gweithredol penodol

**34%**
yn gofyn am gefnogaeth dros y ffôn i drafod heriau rheoli

**30%**
yn dweud y byddai cefnogaeth gan gymheiriaid i helpu arweinwyr elusennau i gefnogi ei gilydd a rhannu syniadau a phrofiadau o gymorth

"Mae angen i ni adolygu'r strwythur staffio i ryddhau rhywfaint o fy amser fel nad ydw i'n rhy brysur â'r gwaith o ddydd i ddydd"
**- Un o atebwyr yr arolwg**

"Ydy cyfarfod am y dyfodol yn bwysicach nag ateb y 50 neges e-bost sy'n eistedd yn fy mlwch derbyn? Ydy hi'n werth cymryd diwrnod i ffwrdd pan fydd cymaint o waith yn ein hwynebu ni ar ôl dod yn ôl?"
**- Un o atebwyr yr arolwg**

**73%** Mae'r arolwg yn dangos bod 73% o fudiadau gwirfoddol wedi gofyn am gefnogaeth rheoli ar unwaith.

Mae adolygu ein gwaith â'n cleientiaid sy'n elusennau a chynnal yr arolwg hwn wedi atgyfnerthu ein hymrwymiad i sicrhau bod Ymddiriedolaeth Cranfield ar gael i elusennau fel ffynhonnell ddibynadwy o help: boed hynny'n golygu helpu arweinwyr, rheolwyr, Byrddau neu fudiadau cyfan. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod elusennau'n darparu eu gwasanaethau hanfodol i gymunedau Cymru mewn modd effeithiol.

# Sut y byddwn yn ymateb

**1** Mae mudiadau'r sector gwirfoddol wedi dweud wrthym yr hoffent i adnoddau rheoli ymarferol fod ar gael ar-lein

- **Dywedodd 65% o atebwyr wrthym yr hoffent i adnoddau rheoli ar-lein ymarferol fod ar gael**
- **Dywedodd 47% wrthym y byddai gweminarau am bynciau rheoli yn ddefnyddiol**

Mae Ymddiriedolaeth Cranfield yn darparu gweithgareddau dysgu di-dâl ar lein ac wyneb yn wyneb lle bo'n bosibl, gan feithrin sgiliau rheoli allweddol a datblygu hyder rheolwyr.

Mae ein gweminarau i gyd wedi'u datblygu'n bwrpasol ar gyfer arweinwyr a rheolwyr elusennau a mudiadau dielw eraill. Gall arweinwyr a rheolwyr elusennau ganfod datrysiadau ymarferol, arfer gorau a gwybodaeth hanfodol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu heddiw.

Mae ein hadnoddau gwybodaeth yn darparu mwy a mwy o ganllawiau 'sut i wneud', templedi a blogiau ynglŷn ag amrywiaeth o destunau rheoli.

O ganlyniadau'r arolwg, mae'n glir y gallai ein gweminarau a'n hadnoddau fod yn cyrraedd mwy o elusennau. Mae llawer o adnoddau gwybodaeth a dysgu di-dâl eraill ar gael hefyd i elusennau yng Nghymru gan Gefnogi'r Trydydd Sector, WCVA a'r asiantaethau gwirfoddol rhanbarthol sy'n cefnogi'r sector. Mae rhai o'r cynigion hyn wedi'u hanelu at elusennau newydd neu gymharol newydd, ac yn aml bydd angen talu am hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer y datblygiad sgiliau uchaf sydd ar gael. Mae adnoddau Ymddiriedolaeth Cranfield yn ategu'r adnoddau hyn sy'n bodoli, yn ychwanegu gwerth atynt, ac yn cynnig datblygiad sgiliau uwch yn ddi-dâl.

"Mae angen mwy o wybodaeth a chyfeirio arnom"
**- Un o atebwyr yr arolwg**

"Mae angen i ni gael gwybod pa hyfforddiant a gweminarau di-dâl sydd ar gael i ni" **- Un o atebwyr yr arolwg**

## Ein hymrwymiad

Byddwn yn cynyddu ein gweithgareddau marchnata a chyfathrebu i sicrhau bod elusennau Cymru yn gwybod pa weminarau ac adnoddau di-dâl sydd ar gael iddynt. Byddwn yn ymgynghori'n rheolaidd ag elusennau i ddeall y testunau sydd o ddiddordeb mwyaf iddynt a byddwn yn darparu cyfleoedd i lenwi bylchau a ganfyddir o ran sgiliau a gwybodaeth.

# Sut y byddwn yn ymateb

## 2 Gofynnodd elusennau am fentora ar gyfer arweinwyr a rheolwyr

- **Dywedodd 45% o atebwyr wrthym y byddai mentora'n wasanaeth gwerthfawr. Maent wedi'u 'gorlethu' â'r heriau mae'r pandemig yn eu cyflwyno ac nid oes ganddynt lawer o amser i feddwl yn strategol.**

Mae gan Ymddiriedolaeth Cranfield raglen fentora sefydledig i gefnogi arweinwyr elusennau. Mae mentora'n darparu man cefnogol i arweinwyr elusennau drafod heriau, ymarfer penderfyniadau ac adolygu amrywiaeth o faterion, gyda mentor profiadol. Gallwn gyflenwi ein cefnogaeth mentora yn effeithiol iawn ar-lein.

Mae llawer o wirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Cranfield yn cadw mewn cysylltiad â'r elusennau sy'n gleientiaid iddynt ymhell y tu hwnt i'r ymgysylltiad gwreiddiol, ac yn aml yn mynd yn ymddiriedolwyr yn y mudiad.

"Mae gormod yn dibynnu arnaf fi, byddwn i'n elwa o fentor."

"Byddem yn elwa o Fentor gan fod gennym lawer o syniadau i amrywio ein gwasanaeth, ond byddai'n dda cael ychydig o amser i feddwl a chefnogaeth i ganfod y camau mae angen i ni eu cymryd."

"Does gen i ddim amser i feddwl yn strategol."

"Mae angen arweinwyr â sgiliau rheoli yma."

"Rydyn ni'n dîm bach iawn ac mae cymaint o'r baich gwaith ar fy ysgwyddau i. Mae cyllid yn her ac mae'n ein hatal ni rhag datblygu ein tîm ymhellach na defnyddio ymgynghorwyr."

### Ein hymrwymiad

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'n cefnogaeth fentora i arweinwyr elusennau, yn sicrhau bod gennym gofrestr gref o fentoriaid hyfforddedig yng Nghymru i weithio wyneb yn wyneb ag elusennau, ac yn ceisio gweithio gyda llawer mwy o Brif Weithredwyr a rheolwyr ledled Cymru, wyneb yn wyneb ac o bell.

## 3 Gofynnodd elusennau am ymgynghori i reolwyr i ymdrin â materion strategol a gweithredol allweddol

- **Byddai 43% o atebwyr yn hoffi cefnogaeth ymgynghori i reolwyr i ymdrin â materion strategol a gweithredol penodol.**

Mae prosiectau ymgynghori Ymddiriedolaeth Cranfield wedi'u hanelu at y mudiad cyfan, yn benodol i ddiwallu anghenion yr elusen sy'n gleient i ni, ac fel rheol yn para 6-7 mis – ond gallant fod yn hwy – a bydd cyfartaledd o 7-12 diwrnod o gyfraniad gan ymgynghorydd gwirfoddol.

Mae tua hanner ein prosiectau'n ymwneud â chadarnhau strategaethau a chynllunio busnes. Mae mudiadau'n gweithio'n galed i archwilio senarios ar gyfer y dyfodol a pharatoi am newid, ac maent yn aml yn gweld bod y broses o baratoi cynllun yr un mor ddefnyddiol â'r cynllun ei hun. Mae llawer o alw am ein cefnogaeth ymgynghori mewn meysydd eraill hefyd, yn enwedig cynllunio ariannol, llywodraethiant, a marchnata a chyfathrebu.

"Mae angen i ni droi o fod yn fudiad amaturaidd, ad hoc i fod yn fudiad proffesiynol â strwythur."

"Dim ond un unigolyn â sgiliau llywodraethiant a chynllunio strategol sydd gennym."

"Mae gennym yr uchelgais i dyfu ond mae popeth yn digwydd mor gyflym, mae angen cefnogaeth arnom i feddwl yn strategol a blaenoriaethu'r gwaith pwysicaf fydd yn cael yr effaith fwyaf."

### Ein hymrwymiad

Byddwn yn gweithio gyda mudiadau partner ac yn datblygu ein gweithgareddau cyfathrebu ein hunain i sicrhau bod elusennau Cymru yn gwybod am ein cefnogaeth ymgynghori ddi-dâl a sut gallant weithio gydag un o'n hymgynghorwyr gwirfoddol. Wrth weithio wyneb yn wyneb neu o bell, byddwn yn cefnogi elusennau a gwirfoddolwyr i weithio gyda'i gilydd i sicrhau eu bod yn llwyddo i gyflawni canlyniadau pob prosiect unigol.

# Sut y byddwn yn ymateb

## 4 Hoffai elusennau gefnogaeth dros y ffôn i drafod heriau rheoli allweddol

- **Dywedodd 34% o atebwyr wrthym y byddai cefnogaeth 'Ar Alwad' dros y ffôn yn werthfawr iawn.**

Mae cyngor 'Ar Alwad' dros y ffôn Ymddiriedolaeth Cranfield wedi'i anelu at arweinwyr elusennau â phroblem frys neu a hoffai drafod ffyrdd o unioni mater penodol.

Mae Ar Alwad yn gyngor dros y ffôn/fideo sydd wedi'i deilwra'n unigol i unioni materion tymor byr ar unwaith. Caiff ei ddarparu gan wirfoddolwyr â sgiliau sy'n briodol i anghenion pob mudiad. Mae cyngor Ar Alwad yn ceisio datrys problemau, yn ogystal â bod yn gam ar y ffordd at gefnogaeth bellach. Rydym wedi gweld ei fod yn arbennig o effeithiol i fudiadau bach cymunedol ag angen cyngor, ond nid prosiect ymgynghori mwy sylweddol.

O ganlyniad i'r arolwg hwn, cysylltodd elusen o Ogledd Cymru ag Ymddiriedolaeth Cranfield i ofyn am drafodaeth ar unwaith am eu rhagolygon llif arian. Daeth y Prif Weithredwr yn ôl atom ar ôl yr alwad a dweud: "WAW! Mae Frank, ein gwirfoddolwr yn anhygoel ac yn gwybod cymaint, bydd hyn yn help mawr iawn i ni, llawer mwy nag roeddwn i hyd yn oed wedi ei feddwl, yr anfantais ydy ei fod wedi tynnu sylw at lawer o waith mae angen i ni ei wneud, ond mae'r rhan fwyaf ohono'n stwff na fydden ni wedi gwybod amdano ac rŵan rydyn ni'n mynd i wneud llawer o newidiadau i wella. Mae'n sioc bod tuag awr efo eich gwirfoddolwr wedi ein helpu ni i ddysgu a deall mwy nag rydyn ni wedi'i wneud dros y 3 – 4 mis diwethaf o geisio ei wneud ar ein pennau ein hunain."

Nawr, bydd Ymddiriedolaeth Cranfield yn darparu cefnogaeth ymgynghori cynllunio busnes i'r elusen, i'w helpu i gymryd eu camau nesaf.

### Ein hymrwymiad

Mae gennym gofrestr o 1,400 o wirfoddolwyr ledled y DU, sy'n ein galluogi i ddarparu cefnogaeth i niferoedd llawer mwy o elusennau Cymru. Byddwn yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth hwn, ac i gynnig cymorth â heriau a phroblemau brys sy'n wynebu elusennau ledled Cymru.

## 5 Hoffai arweinwyr elusennau gefnogi ei gilydd, gan rannu syniadau a phrofiadau

- **Dywedodd 30% o atebwyr yr arolwg yr hoffent allu cael cefnogaeth gan gymheiriaid.**

Yn ystod straen y pandemig, rydym wedi gweld bod arweinwyr elusennau wedi elwa o grwpiau cefnogi cymheiriaid, sy'n rhoi amser i fyfyrio a thrafod ag eraill, a chyfle i rannu heriau a safbwyntiau. Rydym yn credu y bydd buddion y math hwn o gefnogaeth yn parhau ar ôl y pandemig.

Bydd pob grŵp o bedwar i chwech o arweinwyr elusennau'n cyfarfod bedair gwaith dros ddau fis am sesiynau 90 munud, wedi'u hwyluso gan wirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Cranfield. Mae llawer o gyfranogwyr ein grwpiau'n cadw mewn cysylltiad â'i gilydd ar ôl diwedd yr hwyluso ffurfiol.

Nid ydym yn rhagweld y bydd yr amgylchedd gweithredu'n mynd yn llawer haws i elusennau yn y 12-18 mis nesaf, ac rydym yn gwybod y bydd cefnogi cymheiriaid yn parhau i fod yn ffordd werthfawr o leihau teimladau o unigrwydd i arweinwyr elusennau.

"Mae gweithio fel arweinydd elusen yn aml yn gallu teimlo'n waith unig iawn, mae wedi bod yn wych rhwydweithio a chyfarfod â phobl eraill mewn sefyllfaoedd tebyg a thaflu syniadau am ffyrdd o ymateb i heriau. Rydw i wedi ffurfio perthynas dda â chwpl o'r lleill yn ein grŵp ac rydyn ni'n mynd i gadw mewn cysylltiad. Mae hyn yn bwysig iawn gan ei fod yn cynnig cyfle i gefnogi ein gilydd."
**- Alison Price, Prif Swyddog Gweithredol, Age Connects Canol Gogledd Cymru.**

### Ein hymrwymiad

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o wasanaeth 'Cyfnewidfa Cymheiriaid' Ymddiriedolaeth Cranfield i sicrhau bod arweinwyr elusennau ledled Cymru yn cael y cyfle i gael profiad o'r grwpiau cefnogol hyn.

# Crynodeb o'r Ymrwymiadau

Byddwn yn cynyddu ein gweithgareddau marchnata a chyfathrebu i sicrhau bod elusennau Cymru yn gwybod pa weminarau ac adnoddau sydd ar gael iddynt. Byddwn yn ymgynghori'n rheolaidd ag elusennau i ddeall y testunau sydd o ddiddordeb mwyaf iddynt a byddwn yn darparu cyfleoedd i lenwi bylchau a ganfyddir o ran sgiliau a gwybodaeth.

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'n cefnogaeth fentora i arweinwyr elusennau, yn sicrhau bod gennym gofrestr gref o fentoriaid hyfforddedig yng Nghymru i weithio wyneb yn wyneb ag elusennau, ac yn ceisio gweithio gyda llawer mwy o Brif Weithredwyr a rheolwyr ledled Cymru, wyneb yn wyneb ac o bell.

Byddwn yn gweithio gyda mudiadau partner ac yn datblygu ein gweithgareddau cyfathrebu ein hunain i sicrhau bod elusennau Cymru yn gwybod am ein cefnogaeth ymgynghori ddi-dâl a sut gallant weithio gydag un o'n hymgynghorwyr gwirfoddol. Wrth weithio wyneb yn wyneb neu o bell, byddwn yn cefnogi elusennau a gwirfoddolwyr i weithio gyda'i gilydd i sicrhau eu bod yn llwyddo i gyflawni canlyniadau pob prosiect unigol.

Mae gennym gofrestr o 1,400 o wirfoddolwyr ledled y DU, sy'n ein galluogi i ddarparu cefnogaeth i niferoedd llawer mwy o elusennau Cymru. Byddwn yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth hwn, ac i gynnig cymorth â heriau a phroblemau brys sy'n wynebu elusennau ledled Cymru.

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o wasanaeth 'Cyfnewidfa Cymheiriaid' Ymddiriedolaeth Cranfield i sicrhau bod arweinwyr elusennau ledled Cymru yn cael y cyfle i gael profiad o'r grwpiau cefnogol hyn.

# YMDDIRIEDOLAETH CRANFIELD YNG NGHYMRU

Cafodd Ymddiriedolaeth Cranfield ddau grant tair mlynedd yn 2017 gan Sefydliad Garfield Weston a Rhaglen Cefnogi Sgiliau'r Trydydd Sector y Loteri Genedlaethol Cymru. Diben y grantiau oedd galluogi'r Ymddiriedolaeth i gynnig amrywiaeth o wasanaethau i roi cefnogaeth rheoli ac arwain i elusennau yng Nghymru. Mae'r grantiau wedi ein galluogi i benodi Rheolwr Prosiectau Cymru pwrpasol i godi proffil ein gwasanaethau, meithrin perthnasoedd ar draws y sector, ymgysylltu â gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Cranfield sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, a gwneud mwy i ymgysylltu ag elusennau bach i ganolig eu maint.

Roedd cynllun ein prosiect yn seiliedig ar astudiaeth ddichonoldeb annibynnol, a argymhellodd y dylai'r prosiect ganolbwyntio i ddechrau ar Dde Cymru, Casnewydd, Abertawe a Rhondda Cynon Taf gan fod ganddynt boblogaethau trefol dwys a llawer o anfantais. Wrth i'r prosiect fwrw ymlaen, gwnaethpwyd rhywfaint o gynnydd mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru, ac roedd 30% o'r elusennau a gefnogwyd yn dod o'r tu allan i ardal y prosiect. O ganlyniad i hyn, cynyddodd y galw am ein gwasanaethau o bob rhan o Gymru, er bod cryn dipyn o waith i'w wneud eto i gynyddu ein gweithgarwch yng Ngogledd, Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae ein gwaith yng Nghymru wedi bod yn llwyddiant enfawr ac wedi rhagori ar ein holl ddisgwyliadau o ran nifer yr elusennau yr ydym wedi gweithio gyda hwy: cefnogwyd cyfanswm o 120 o elusennau yn ystod cyfnod tair mlynedd y grantiau – 210% yn fwy na'r targed gwreiddiol o 57. Hefyd, bu 210 o arweinwyr elusennau yn bresennol yn ein dosbarthiadau meistr yn ystod cyfnod y prosiect – sy'n fwy na'r targed gwreiddiol o 120 – a defnyddiwyd 59 o wirfoddolwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn dal i fod yn weithgar.
Rydym yn ymroddedig i barhau â'n gwaith yng Nghymru, i gyrraedd mwy o elusennau, dros fwy o'r wlad.









# SGILIAU A BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL

Y sgiliau allweddol sydd eu hangen: y 12 mis diwethaf




Blaenoriaethau allweddol yn y 18 mis nesaf




Roedd atebwyr yn gallu dewis pob opsiwn sy'n berthnasol i'w hanghenion.


# PRIF GANFYDDIADAU'R AROLWG

## Atebwyr yr Arolwg

### Niferoedd:


Ymatebodd 314 o elusennau Cymru i'n harolwg yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2021. O'r rhain, ymatebodd 311 i'r fersiwn Saesneg, ac ymatebodd 3 yn Gymraeg.

### Rolau'r atebwyr:




15% 'Arall' yn rolau Swyddog/ Cydlynydd/ Gwirfoddolwr yn bennaf

### Incwm blynyddol y mudiadau a ymatebodd:




### Lleoliadau/ Gweithredu:




- Dywedodd 38.5% eu bod wedi'u lleoli a/neu yn gweithredu yn Ne Cymru.
- 25.5% yng Ngorllewin Cymru.
- 21% yng Ngogledd Cymru.
- 9% yng Nghanolbarth Cymru.
- Dywedodd 11% eu bod yn gweithredu ar draws pob sir yng Nghymru (mae rhai atebwyr wedi nodi eu bod yn gweithredu mewn rhanbarth ac yng Nghymru Gyfan yn yr adran hon).

Dywedodd 86% o'r elusennau a gwblhaodd yr arolwg nad oeddent wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Cranfield o'r blaen.

# PRIF GANFYDDIADAU'R AROLWG

## Cylch gwaith achosol yr atebwyr:

Roedd atebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn i adlewyrchu cylchoedd gwaith â mwy nag un achos:

- 60% Plant a phobl ifanc
- 42% Iechyd meddwl
- 38% Datblygu economaidd, cymdeithasol, cymunedol
- 36% Addysg a chyfleoedd
- 36% Pobl hŷn
- 34% Anabledd
- 23% Anableddau dysgu
- 22% Cyflogaeth a hyfforddiant
- 22% Diwylliant a'r celfyddydau
- 17% Amgylchedd
- 15% Gofalwyr
- 14% Rhyddhad rhag argyfyngau
- 13% Tai a digartrefedd
- 13% Trais domestig
- 11% Gofal/ ymchwil
- 10% Caethiwed
- 9% Troseddwyr a chyn-droseddwyr
- 9% Ffoaduriaid, mudwyr, cymunedau BAME
- 8.5% Treftadaeth
- 7% LGBTQ+
- 7% Eiriolaeth a gwasanaethau
- 5% Cefnogaeth seilwaith i'r trydydd sector

# Diolch

Diolch i'r mudiadau canlynol sydd wedi ein helpu i hyrwyddo'r arolwg, gan sicrhau cyrhaeddiad y tu hwnt i'n cysylltiadau presennol:

- Canolfan Cydweithredol Cymru
- Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid
- Gwirfoddol Sefydliad Steve Morgan
- Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru
- Interlink RCT
- Sefydliad Moondance
- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Asiantaethau Gwirfoddol Gwent (GAVO)
- Sefydliad Banc Lloyds
- WCVA
- Cefnogi Trydydd Sector Cymru
- Aelodaeth CWVYS - https://www.cwvys.org.uk/members/



Cysylltwyd yn uniongyrchol â 150 o fudiadau yr oedd Ymddiriedolaeth Cranfield wedi gweithio gyda hwy o'r blaen

yng Nghymru. I sicrhau cynhwysiant, cymerwyd y camau canlynol cyn lansio'r arolwg:

- Ymgynghori â mudiad cefnogi anabledd i oresgyn unrhyw rwystrau rhag mynediad y gallai atebwyr eu hwynebu o ran nam ar y golwg.
- Galluogi elusennau sy'n wynebu allgau digidol i gymryd rhan mewn galwad ffôn lle byddai staff Ymddiriedolaeth Cranfield yn cefnogi elusennau i gwblhau'r arolwg.
- Hyrwyddodd CWVYS yr arolwg i bob un o'u 126 o aelodau, sy'n cynnwys Y Ganolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd, y Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig, Fio (cwmni theatr wedi'i arwain gan leiafrifoedd yng Nghaerdydd) a Race Council Cymru - sydd i gyd yn cefnogi pobl ifanc o gefndiroedd ethnig amrywiol – a llawer o elusennau sy'n cefnogi pobl ifanc ag anableddau.
- Rhannodd Llywodraeth Cymru yr arolwg â 50 o fudiadau/rhwydweithiau ar grŵp Partneriaeth y Trydydd Sector. Roedd y rhain yn cynnwys:
    - Race Council Cymru
    - EYST
    - Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru (drwy Anabledd Cymru)
    - Cyngor Cymru i'r Deillion



Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a buom yn cyfathrebu amdano'n ddwyieithog.

# Rydym yn credu mewn adeiladu elusennau llwyddiannus

Ymddiriedolaeth Cranfield yw'r prif ddarparwr cefnogaeth rheoli pro bono i elusennau yn y DU. Mae gennym rwydwaith o wirfoddolwyr medrus iawn sy'n helpu elusennau i lwyddo a ffynnu drwy roi eu hamser, eu sgiliau a'u harbenigedd i ddarparu cyngor busnes strategol a gweithredol a chefnogaeth i arweinwyr. Drwy ein gwaith, rydym yn grymuso arweinwyr elusennau i wneud mwy o ddaioni a gwneud y gwahaniaeth mwyaf posibl i gymdeithas ac i'r miliynau o bobl sy'n dibynnu ar wasanaethau elusennau bob blwyddyn.

Hoffem ddiolch i'n holl wirfoddolwyr, rhoddwyr, arianwyr, partneriaid corfforaethol a chefnogwyr eraill am bopeth a wnânt i gefnogi ein gwaith a helpu i adeiladu elusennau llwyddiannus.

I'n helpu i barhau â'n gwaith, rhoi arian, gwirfoddoli neu ddysgu mwy am ein gwaith, ewch i www.cranfieldtrust.org

Mae Ymddiriedolaeth Cranfield yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant
Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr Rhif Cwmni 2290789
Rhif Elusen Gofrestredig 800072 (Cymru a Lloegr)
a SC040299 (yr Alban)

1 Bell Street, Romsey, SO51 8GY Ffôn:
01794 830338
E-bost: talktous@cranfieldtrust.org

Dilynwch ni:

@CranfieldTrust

/cranfieldtrust